

CYFARFOD:	PWYLLGOR PENSIYNAU
DYDDIAD:	27 MAWRTH 2023
TEITL:	DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO
PWRPAS:	Mabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Cyllido yn dilyn ymgynghoriad
ARGYMHELLIAD:	MABWYSIADU'R DATGANIAD
AWDUR:	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

1. CYFLWYNIAD

Fel adroddwyd i'r Pwyllgor yma ar 18 Ionawr 2023 mae'n ofynnol i'r Gronfa gyhoeddi Datganiad Strategaeth Cyllido (DSC). Cyflwynwyd a chytunwyd hwn ym mhwyllgor mis Ionawr a chafodd ei ddanfôn allan am ymgynghoriad gyda phartïon a diddordeb.

2. YMGYNGHORIAD

Ymgynghorwyd gyda phob cyflogwr sydd yn rhan o'r cynllun, yr actiwari ac ymgynghorwyr y gronfa.

Cafwyd ymateb positif gan nifer o'r cyflogwyr i'r datganiad yn cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri, Heddlu Gogledd Cymru, GwE a Cyngor Sir Ynys Mon.

3. DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO DERFYNOL

Mae DSC terfynol yn Atodiad A.

Mae un mân newid ar dudalen 2 yn dilyn adborth gan y Bwrdd i'r fersiwn a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 18 Ionawr 2023.

4. ARGYMHELLIAD

Bod y Datganiad Strategaeth Cyllido yn cael ei fabwysiadu.